Bob Owen Croesor yn Dryllio'r Delwau

# Nid Pont Inigo Ydyw Hi

Diddorol iawn a fyddai cael map o Gymru cyn yr arferiad o godi pontydd, pan groesid afonydd mawrion a bychain drwy gyfrwng rhydau a thrwy gyfrwng sarnau neu gerrig llamu, y gwelir hwynt yn croesi cymaint o afonydd.

Y mae cannoedd o enwau Rhydau yn aros hyd heddiw, megis Rhydyspardyn, Rhydyclafdy, Rhydcyffiniau, Rhydsarn, Rhydgoch, Rhydymain, Rhydycreuau, Rhydyfuwch, ayyb.

Petaem yn casglu'r holl enwau Rhydau sydd ar gael yng Nghymru, a gwneuthur sylw manwl o'u lleoliad ond odid felly na allem gael syniad o fel y teithiau'r bobl gynt o blwyf i blwyf. Y mae sarnau a rhydau yn llawer iawn hynach na phontydd; yn aml iawn codwyd pontydd yn y lleoedd y byddai rhydau, megis Pont Rhyd Llanfair; Pontrhydfendigaid; Pontrhydybenllyg; Pontrhydir; Pontrhydgoch; Pontrhydfydwr; Pontrhydllydan; Pontrhydyllo; Pontrhydymeirch; Pontrhydygwystl; a lle byddai sarnau megis Pontsarnwythddwr; Pontpenysarn a Pontsarnyclorian, ayyb.

Nid oes amau na chodwyd aml i bont Rufeinig yng Nghymru, ond nid cymaint o lawer ag y credir gan y doreth o bobl. Aml iawn y clywais alw pont neilltuol yn un Rufeinig pryd mewn gwirionedd nad oedd, oherwydd ceir digonedd o hen records yn profi'n ddigamsyniol pryd y codwyd hwy, a digwyddasid codi'r rhai hynny o fewn y tri chan mlynedd diwethaf.

Nid yw'r traddodiad bod Inigo Jones wedi cynllunio'r pontydd a briodolir iddo yn gywir, megis Pontfawr, Llanrwst a Phont Dolymoch rhwng Plwyf Ffestiniog a Maentwrog. Gwn fod seiri pontydd rhagorol yng Nghymru cyn ei eni ef, ac y mae rhai pontydd gwych yn aros heddiw yn eu rhwysg a'u cadernid a gynlluniwyd gan eraill, a digon prin y buasai gŵr prysur fel Inigo Jones yn rhoi sylw i afonydd Cymru pan oedd galwadau mawr ar ei amser yn Llundain, a'r wlad o'i chylch, ac yn sicr ddigon y mae digon o adeiladau yn ogystal â phontydd ar gael a ddengys yn amlwg wyched y seiri meini a'r seiri pontydd yng Nghymru gynt.

Cymerai'r hen Gymry ddiddordeb anghyffredin mewn crefftwaith o bob math ac yr oedd saer maen a saer pren yr un mor uchel yn eu golwg â saerniwr Cywydd neu Englyn. Ymddiddorent yng ngweithiau crefftwyr o bob math.

Canodd Tudur Penllyn Gywydd canmol i Gryffyth Fychan y Saer:

> Pwy a wnaeth ond un pen iau…
> twr gwyn bendigaid tyw'r gwaith;


ac os ceid crefftwr sâl ar wneuthur pontydd gynt, fe'i gwawdid yn llym:

> I Bont Simsan
> Rhy front ydyw'r bont i'r byd,
> i'w thrwsio…

Pan adeiladwyd Pont Corwen canodd y beirdd dros gan mlynedd yn ôl:

> I Seiri Pont Corwen
> Y seiri heini i hunain cedyrn…
> tres ryfedd tros yr afon.
> Pwy?

Ac un o ddynion pwysicaf oes Griffith Hiraethog oedd Sion Saer, ac yn y Peniarth M.S. 176 f.323 ceir y cyfeiriad diddorol uchod at bontydd yn cael eu codi yng nghyffiniau Betws-y-coed yn adeg Rhyfel y



*Pont Llanrwst.*

Rhosynnau, lle ceir cyfeiriad at Howel y Saer o Benllyn:

*'Yn y flwyddyn i bu lw Herbert i gwnaeth Ho'l (Howel) Saer o Benllyn y bont ar Ledr eb achos ond ddyfod i Sesiwn Sir Feirionydd yn Aber Conwy ac i'r oedd llif yn yr afon fel na allai fynd drwodd ac i gwnaeth y bont heb dasg yn y byd ond a fynai ddynion da i roi iddo a phan ddarfu honno i mudodd ef i Lan Llygwy ac i gwnaeth y bont honno yr un modd.'*

Erys Llansanffraid Glyn Dyfrdwy hyd heddiw a cheir cofnod i honno gael ei chodi yn 1589 a phan ddaeth llif enfawr na fu ei gyffelyb erioed yn hanes Edeyrnion arhosodd y bont honno yn ddiysgog.

Yn oes Rhisiart Philip y bardd o Ardudwy y codwyd Pont y Bala dros Dryweryn, a hefyd Pont y Maerdu ger Corwen, a cheir englynion o'i waith i'r rheiny.

Yn oes y Frenhines Elizabeth yr oedd yr un mor bwysig i ŵr tiriog cyfoethog ac i'r Yswain roi swm gogyfer ag atgyweirio a chodi pontydd eu hardaloedd ag a oedd atgyweirio Eglwys y Plwyf ac, yn y cyfnod hwnnw, pobl breifat a godai bontydd ac nid sir neu wladwriaeth; ond erbyn oes Cromwel yr oedd yn orfodol i'r gwahanol Gymydau godi trethi at godi pontydd y sir.

Yn 1574 cawn fod Dr John Gwynn o Goleg St. Ioan, Caergrawnt, yr hwn oedd yn frawd i Morrys Wynne o Wydir, yn cymuno mewn ewyllys o'i eiddo:

*'An annual rent of £40 towards the maintenance of St. John's College, Cambridge, and during the vacancy of any fellowship towards making a bridge over the river Conwaye at a place called Rhid Llanfair between Co. Denbigh and Carnarvon as well as towards repairing the waies and passages in Carnarvonshire.'*

Dengys hyn nad ar y siroedd y gorffwysai'r baich o godi pontydd yn oes Elizabeth, hyd yn oed bontydd rhwng dwy sir.

* * *

Erbyn 1616 yr oedd pethau wedi newid gan y cawn fod Syr Wm. Maurice o'r Clenenau yn cael ei gyhuddo yn Llys y Seren o gadw a defnyddio'r arian a godwyd drwy drethi oddi ar drethdalwyr Sir Gaernarfon at adeiladu pont ym mhlwyf Llanystumdwy, i'w bwrpas ei hun.

Ac, ymysg Papurau Gwydir, sydd ynghadw yn y Llyfrgell Genhedlaethol, cawn restr o bontydd dirywiedig Sir Gaernarfon a oeddynt yn rhy simsan i neb allu dibynnu mymryn ar eu diogelwch.

Mewn un cofnod dyddiedig 26 Hydref 1616 ceir fod Petty Sessions yn pasio i:

*'£6 18s 6d to be levied in the Commote of Creuddyn towards rebuilding the shirehall in Carnarvon as well as a mise towards two bridges in Llanstumdwy.'*

ac ym mysg yr un papurau y ceir cofnod at Bont Llanrwst, yn y Sesiwn yn Rhuthun, 9 Ionawr 1627 (naw mlynedd cyn adeg codi'r bont 1636) pryd y mae'r rheithwyr yn cyflwyno mesur:

*Concerning the public and comon bridge situated on the King's Highway over the river Conway in the parish of Llanrwst… commonly called Llanrwst Bridge, which is and for many years been in the greatest decay, so that neither the King's subjects nor horses, carts and carriages are able to come and go without great danger to life, to the common nuisance of all neighbours and other subjects of the King crossing there and of fellow countrymen in the said County, the jury find that the inhabitants of the County [Denbigh] must repair the half of the bridge abutting upon the said County.*

Ond aethai rhai blynyddoedd heibio cyn iddynt godi'r bont yn 1636, gan y cawn y cofnod a ganlyn ymysg Papurau Gwydir dyddiedig 28 Awst 1633, sydd yn cyfeirio at gyflwr adfeiliedig yr hen bont:

*'Owen Wynne to his brother Sir Richard at Mostyn… Encloses an Order touching the decay of Llanrwst Bridge'*

ac yn y Llyfrgell Genedlaethol ymysg yr un papurau dyddiedig 14 Ionawr 1631 ceir copi o archeb y Chwarter Sesiwn a gynhaliwyd yn Rhuthun

*'for raising £500 towards the repair of that part of Llanrwst Bridge lying in Co. Denbigh. Signed, Hadfield, Clerk of the Peace, Co. Denbigh.'*

ynglŷn â'r archeb uchod ceir

(a) *Note of the proportion contributed by the hundreds of Co. Denbigh.*

(b) *do. – do. – Carnarvon.*

Yn awr, os gwnaethpwyd archeb i godi £500 yn Sir Ddinbych, gwnaethpwyd yr un modd yn Sir Gaernarfon. Felly yr oedd hyn yn arfaethu y costiai i'w hatgyweirio, sylwer £1,000, swm cyfartal i £10,000 neu £12,000 yn safon a gwerth arian heddiw.

* * *

Paham y rhoddwyd clod i Rhisiart Wynn o Wydir am godi'r bont hon, a chofnodion ar gael i brofi nad gwir hynny gan fod y ddwy sir yn cyfrannu tuag ati. Onid y wlad a gyfrannodd eu sylltau trethi at godi neu atgyweirio Pont Llanrwst?

Lol a baldordd yw'r hyn a ysgrifennwyd ynglŷn â pherthynas Inigo Jones a'r bont hon, ac â'i gysylltiadau â theulu Gwydir. Coel gwrach wrth ei ewyllys yw dywedyd bod Syr John Wynne o Wydir yn gefnogydd i Inigo Jones cyn iddo fynd i'r Eidal, ac y mae Cyflwyniad i *The History of Gwydir Family with Memoirs* [Rhuthun 1827] yn hollol gamarweiniol am bopeth a ddywedir am Inigo Jones, ac nid yw'r ffaith fod Inigo Jones yn *'Surveyor of the Works'* i'r Llywodraeth tua'r cyfnod hwn yn ddigon o reswm tros briodoli ei hadeiladu iddo ef. Nid oes enw Inigo Jones i'w gael yn holl gofnodion Gwydir yn y Llyfrgell Genedlaethol.

Awgrymir gan y Golygydd y gallai bod Inigo Jones wedi mynd i'r Eidal yng

*(Parhad ar dudalen 14)*